**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) (Cychwyn Rhif 1) 2023.

**Julie James AS**

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

**3 Hydref 2023**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ('y Ddeddf') a ddaeth i rym ar 7 Mehefin 2023, y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol, wedi'u nodi ym mharagraff 4 isod. Mae darpariaethau eraill y Ddeddf yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Gwneir Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023 ('y Gorchymyn') gan Weinidogion Cymru ac mae'n dod â darpariaethau eraill y Ddeddf, a nodir hefyd ym mharagraff 4 isod, i rym ar 30 Hydref 2023.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 22(2) o'r Ddeddf. Yn unol ag adran 21(3) o'r Ddeddf mae'r Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru ynghylch effaith amgylcheddol cynhyrchion plastig untro tafladwy, diangen sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel. Bwriad y Ddeddf yw cyflymu'r newid mewn ymddygiad defnyddwyr i ffwrdd o gynhyrchion untro tuag at fwy o ailddefnyddio a bydd yn annog busnesau yng Nghymru i arwain y ffordd wrth ddatblygu dewisiadau amgen mwy cynaliadwy.

4.2 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys am ddim), gynhyrchion plastig untro penodol a chynhyrchion wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddadwy i ddefnyddiwr yng Nghymru ac yn sefydlu cyfundrefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol. Mae adran 5(2) o'r Ddeddf yn darparu mai dim ond corff corfforedig (gan gynnwys corff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus);

partneriaeth; cymdeithas anghorfforedig neu berson sy'n gweithredu fel unig fasnachwr y gall gyflawni'r drosedd honno.

4.3 Daeth y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol: adrannau 3 (cynhyrchion plastig untro gwaharddedig: pŵer i ddiwygio); 4 (pŵer i ddiwygio: dyletswyddau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy ac adrodd); 17 (sancsiynau sifil), 21 (rheoliadau), 22 (dod i rym) a 23 (enw byr). Daw darpariaethau eraill y Ddeddf i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Gwneir y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru ac mae'n dod â'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 30 Hydref 2023:

a) adran 1 (cysyniadau allweddol: "cynnyrch plastig", "untro" a "phlastig");

b) adran 2 (cynhyrchion plastig untro gwaharddedig);

c) adran 5 (y drosedd o gyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig);

d) adran 6 (trosedd: dull treial a chosb);

e) adran 7 (camau gorfodi gan awdurdod lleol);

f) adran 8 (pŵer i wneud pryniannau prawf);

g) adran 9 (pŵer mynediad);

h) adran 10 (pŵer mynediad: mangreoedd preswyl);

i) adran 11 (pŵer mynediad: amgylchiadau eraill pan fo gwarant yn angenrheidiol);

j) adran 12 (pwerau mynediad: atodol);

k) adran 13 (pŵer arolygu);

l) adran 14 (y drosedd o rwystro etc. swyddogion);

m) adran 15 (eiddo a gedwir: apelau);

n) adran 16 (eiddo a gyfeddir: digolledu);

o) adran 18 (troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill);

p) adran 19 (atebolrwydd troseddol uwch-swyddogion etc.);

q) adran 20 (dehongli);

r) paragraff 1 o'r Atodlen (cynhyrchion plastig untro gwaharddedig), ac eithrio'r cofnodion yng ngholofn 1 a cholofn 2 o'r Tabl ar gyfer "caeadau ar gyfer cwpanau neu gynhwysyddion bwyd cludfwyd", "bagiau siopa" ac "unrhyw gynnyrch a wnaed o gynnyrch plastig ocso-ddiraddiadwy, (a) pa un a yw'r cynnyrch hwnnw yn ymddangos yn rhywle arall yn y tabl hwn ai peidio, a (b) pa un a fyddai'r math penodol o gynnyrch, neu'r diben y cyflenwir y cynnyrch hwnnw (neu fath penodol o gynnyrch) ar ei gyfer, fel arall wedi ei esemptio oherwydd cofnod yng ngholofn 2 ai peidio.";

s) paragraff 2 o'r Atodlen.

4.4 Nod Llywodraeth Cymru yw cyflwyno'r gwaharddiad ar y cynhyrchion plastig untro a restrir yn y Tabl yn yr Atodlen i'r Ddeddf fesul cam. Mae'r Gorchymyn yn cyflwyno'r cam cyntaf o waharddiadau – crybwyllir y cynhyrchion a fydd yn cael eu cyflwyno ar gam diweddarach yn is-baragraff (r) uchod.

4.5 Mae'r Tabl yn yr Atodlen i'r Ddeddf yn darparu ar gyfer esemptiadau sy'n gymwys mewn cysylltiad â math penodol o gynnyrch neu'r diben y cyflenwir y cynnyrch ar ei gyfer. Mae'r rhain yn cynnwys esemptiadau ar gyfer unrhyw gwpan neu gynhwysydd cludfwyd nad yw wedi'i wneud o bolystyren ehangedig neu bolystyren allwthiedig ewynnog ac esemptiad ar gyfer cyflenwi gwelltyn plastig untro i berson sydd ei angen am resymau iechyd neu anabledd.

## 5. Ymgynghori

5.1 Gan fod y Gorchymyn yn cychwyn darpariaethau yn y Ddeddf, yr oedd y cynigion cychwynnol ar eu cyfer yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ac yr oedd y darpariaethau yn ddarostyngedig i waith craffu gan y Senedd a chymeradwyaeth ganddi, ni chynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar gyfer y Gorchymyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Gan fod y Gorchymyn yn cychwyn darpariaethau yn y Ddeddf a bod RIA wedi'i gwblhau ar gyfer y Ddeddf, nid yw RIA yn ofynnol gyfer y Gorchymyn. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Nodwch adran 3.2 o'r Cod hwnnw a'r esemptiad ynghylch 'lle bo'r is-ddeddfwriaeth yn orchymyn cychwyn'.